

WG 35. 5 83
7

GALARGAN

ER COFFADWRIAETH AM

Mr. J. Jarman,

MAB IEUANGAF Y PARCH. D. JARMAN,
GWEINIDOG Y BEDYDDWYR YN Y BONTNEWYDD,
SWYDD FAESYFED,

YR HWN A FU FARW MEDI 26, 1853,

Yn 18 mlwydd oed,

Yn nhy Mr. Smyth, Masnachdy yr Angor, Abertawy, ac n
gladdwyd yn ngladdfa Bethesda, y dydd Iau canlynol, sef
pen y pythefnos i'r dydd y daeth i'r dref.

GAN GYFAILL.

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL-FAWR.

—
1853.

GALARGAN.

1. Angau elyn, t'rawaist ergyd,
O mor sydyn! O mor syn!
Cym'raist Jarman anwyl ymaith,
Er ei goffa, teilwng hyn;
Gwr o rinwedd, doeth, a phwyllog,
Gwr gwir sobr, gwr heb sen,
Diwair, gwyliadwrus, ydoedd,
Credaf godi hwn i'r nén.
2. Tad a mam a brodyr unwedd
A chwiorydd, oll yn un,
'Rwyf yn teimlo yn eich trallod,
Coll'soch un heb weniaeth flin;
'Nawr mae'n gorwedd yn yr oerfedd,
Dystaw, tawel, nos a dydd,
Mwy nis gwelir ar y ddaear,
Hyd y codiad mawr a fydd.
3. O fy mrawd, mae'n anhawdd teui,
Ond anhawddach canu'n wir;
Dan yr archoll drom a gawsoch,
Trwy symudiad James o'n tir;
Anhawdd genych, gwn, yw credu,
Gan mor sydyn fu y tro,
Nad yw eto 'n mhlith bywiolion,
Ac yn rhodio bryn ueu fro.
4. Medi, deg tri, fe'ch gadawodd,
Llon ei fynwes megys cynt;
Dau ddydd gwedyn fe ddaeth yma,
O mor hoew oedd ei hynt;
Dranoeth teimlai ef ryw gystudd,
Dau ddydd gwedyn gwaelaidd iawn;
Ac ar ei gais y dydd canlynol
Minau'n gynnes ato awn.
5. Cefais ganddo gwyn dystiolaeth,
Cofio 'r oedd weddïau'i dad;
Fe feddyliai uno'n fuan
Ag achos Iesu, Gyfaill mād;
Gwyddai b'le i droi mewn trallod,
B'le i gael trugaredd rad
Trwy yr anwyl fyddlon Iesu
'R hwn ro'dd iawn foddlonai'r Tad.

6. Teimlai'n ddwys ei aml feiau,
D'wedai fod gan bawb ei bwn,
Eto credai yn yr Iesu,
Parod yw i faddeu, gwn :
Teimlwn rwygiad trwy fy mynwes
Pan yn swm ei athrist gri,
*"Father, mother, come, come hither,
Oh come now, and pray with me."*
7. Ond, er galar, nid oedd ateb,
Tad a mam oe'nt draw yn mhell,
Wrth Bontnewydd, swydd Faesyfed ;
Methid cael yr un i'w gell.
Gorfu i James, yn ddeg ac wyth oed,
Groesi rhydiau'r afon fawr ;
Aeth ei enaid draw i'r bywyd,
Aeth ei gorph i lwch y llawr.
8. Medi, dau ddeg, chwech, mi gofiat,
Mil wyth cant a phump deg, tri,
Corph adawyd gan yr enaid,
Mewn chwys oer 'nol gyda ni ;
Ar d'rawiad deuddeg yn y t'wyllnos,
Newid wnaeth y nos am ddydd ;
Credaf ei fod 'nawr yn ddedydd ;
O'r pridd oer daw'r corph yn rhydd.
9. Mr. Smyth a'i foneddiges
Fuont iddo'n fam a thad ;
Gwnaent weinyddu iddo'n dyner ;
Duw wobrwyo'r rhai'n yn rhad.
Meib a merched y masnachdy
Fuont oll yn dyner iawn,
Cofiat byth eu gwir ddynoliaeth ;
Eu llygaid oedd o ddagrau'n llawn.
10. Cofiat, hefyd, garedigrwydd
Ereill, ar yr angladd ddydd ;
Treulio'u hamser, estyn cymorth
Gosod James dan gromlech gudd.
Davies, Roberts, Price, ac Evans,
Gyda'u gilydd, yr un wedd,
Oeddynt yno'n cydymdeimlo
Wrth roi James yn llwch y bedd.
11. Wrth derfynu, mi ddymunaf
Ar i'r Parch. D. Jarman sŷn,
Gyda'i wraig, a'i blant yn unol
Ddwys ystyried pwy wnaeth hyn :
'R hwn a roddodd ddygodd ymaith,
Nid oedd cam yn hyn yn bod.

Ei eiddo'i hunan a gymerodd,
Rhodder iddo byth y clod.

12. Cofio byddwch am ei bethau,
Gwel'd ei lyfrau, ysgrifau mawr;
Gyda'i wisgoedd, a'i deganau,
Cofio'r dydd, y mis, a'r awr,
Gwel'd ei frodyr yn d'od adref,
Cyfeillion gynt, yn rhodio'n rhydd,
O mor oeraidd fydd eich atgof
Fod eich James mewn gwely pridd.
13. Gallech feddwl buasech foddlon
Pe buasai'ch bachgen cu,
Yn cael marw yna gartref,
A'i gladdu wrth eich capel chwi;
Ond, yn mhob man, trwm yw marw,
Enaid James ga'dd fyned fwrdd.
Ond cyn hir er gwaethaf angau,
'R ochr draw a'ch James cewch gwrdd,
14. Bleidwyr gwresog Sul Ysgolion,
Daliwch ati, da yw hyn;
'R oedd ei hargraph ar ein cyfaill
Yn ei angau, tystiaf hyn:
Y pethau ddysgodd ac adroddodd,
Oeddynt ar ei feddwl ef;
Pan yn marw, daliodd afael
Yn addewid lor y nef.
14. Anwyl ie'netyd o gylch Llanfair,
A'r Bontnewydd, oll yn nghyd,
Chwithau filoedd Abertawy,
Dwys ystyriwch hyn mewn pryd,
Os bu farw James a Dafydd*
Cyn gwel'd un ar hugain oed,
'Mhen ychydig gellwch chwithau
Yn mhyrth angau roi eich troed.

CYFAILL.

* Mab Mrs. Anne Nicholas, Crug-glas, Abertawy; yr hwn a fu farw yn un o *Hospitals* Jamaica, o'r *Yellow Fever*.

Pregethwyd pregethau angladdol i'r ddau, yn Bethlehem, yr un Sul, gan y Parch. L. Evans, oddiwrth Pregethwr 7. 13., "Edrych ar orchwyl Duw;" i'r cyntaf, a "Canys pwy a all unioni y peth a gamodd efe?" i'r llall yn yr hwyr.